



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Jones
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Claire Hendy – Swyddog y Gwasanaethau Llywodraethol (01443 424081)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod **Y PWYLLGOR MATERION IECHYD A LLES** fydd yn cael ei gynnal yng **NGHANOLFAN CHWARAEON ABERCYNON, PARC ABERCYNON, CF45 4UY DDYDD MAWRTH 3 GORFFENNAF, 2018** am **5.00PM**.

Caiff Aelodau nad ydyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yn y cyfarfod ar faterion y cyfarfod er bydd y cais yn ôl doethineb y Cadeirydd. Gofynnwn i chi roi gwybod i'r Gwasanaethau Llywodraethol erbyn dydd Gwener 29 Mehefin 2018 trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod, gan gynnwys rhoi gwybod a fyddwch chi'n siarad Cymraeg neu Saesneg.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Materion Iechyd a Lles a gynhaliwyd ar 16 Ebrill 2018

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CYMUNED A GWASANAETHAU I BLANT

3. GWASANAETH CADW'N IACH GARTREF – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn cyflwyniad fydd yn rhoi'r newyddion diweddaraf o ran Gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref

4. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Trafod Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

11 - 50

5. Y NEWYDDION DIWEDDARAF O RAN DATBLYGU A DARPARU CAEAU 3G LEDLED RHONDDA CYNON TAF

Trafod adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Hamdden, Parciau a Chefn Gwlad mewn perthynas â datblygu caeau 3G yn Rhondda Cynon Taf.

51 - 56

ADRODDIADAU CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

6. RHAGLEN WAITH – CRAFFU AR FATERION IECHYD A LLES (DRAFFT) – BLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19

Trafod y rhaglen waith (drafft) ar gyfer y Pwyllgor Materion Iechyd a Lles am flwyddyn y Cyngor 2018/19.

57 - 64

7. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Cylchrediad:-

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Iechyd a Lles
(Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol R Yeo a G Holmes, yn y drefn honno)

Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol:

Y Cyngorydd A Roberts, Y Cyngorydd M Forey, Y Cyngorydd L De Vet, Y
Cyngorydd L Jones, Y Cyngorydd J Davies, Y Cyngorydd J Williams, Y
Cyngorydd A Chapman, Y Cyngorydd A Davies-Jones, Y Cyngorydd P Howe, Y

Cynghorydd K Jones, Y Cynghorydd G Stacey, Y Cynghorydd M Tegg a'r
Cynghorydd G Hughes

Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins, Aelod o'r Cabinet ar faterion
Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant